



Mae pawb yn gweithio'n galed i wneud yn siŵr eich bod chi'n cael gradd ddilys yr haf hwn. Ond, mae gennych chi'r hawl i ofyn am adolygiad ac apêl os ydych chi'n credu bod gwall wedi cael ei wneud.

I ba gymwysterau mae hyn yn berthnasol?

- Cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch a gymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru
- Tystysgrifau Her Sgiliau
- Lefel 2 a Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau
- Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (Uned 216)

Cam 1: Adolygiad Canolfannau (drwy eich ysgol neu goleg)



Byddwch chi'n derbyn eich gradd a bennwyd gan ganolfannau dros dro

Ydych chi'n credu bod gwall wedi'i wneud a fydd yn effeithio ar eich gradd gyffredinol?

NAC YDW

Dim gweithredu pellach



YDW

Os nad ydych chi wedi derbyn eich cofnod gwneud penderfyniadau eto, bydd eich ysgol neu goleg yn rhoi terfyn amser i chi i ofyn amdano.

Ar ôl i chi fynd drwy eich cofnod gwneud penderfyniadau, ydych chi'n dal i gredu bod gwall wedi'i wneud a fydd yn effeithio ar eich gradd gyffredinol?

NAC YDW

Dim gweithredu pellach



YDW

Gallwch chi lenwi ffurflen y bydd eich ysgol neu goleg yn ei darparu, erbyn y terfyn amser penodol, i egluro pa wall rydych chi'n credu sydd wedi'i wneud.

Pan fydd eich ysgol neu goleg wedi cwblhau'r adolygiad ydyn nhw wedi dod o hyd i wall gyda'ch gradd?

NADDO

Bydd eich ysgol neu goleg yn rhoi gwybod i chi nad ydyn nhw wedi dod o hyd i unrhyw wall a bod eich gradd dros dro yn aros yr un peth. Byddan nhw hefyd yn rhoi manylion proses apeliadau cam 2 CBAC i chi.

DO

Bydd eich ysgol neu goleg yn cywiro'r gwall. Mae'n bosibl y bydd eich gradd yn mynd i fyny, yn mynd i lawr, neu'n aros yr un peth. Byddan nhw hefyd yn rhoi manylion proses apeliadau cam 2 CBAC i chi.

Cam 2: Apêl i CBAC



Dylech chi ystyried canlyniad eich adolygiad canolfannau, eich cofnod gwneud penderfyniadau ac, os yw'n berthnasol, y dystiolaeth asesu sydd wedi'i defnyddio i bennu eich gradd.

Ydych chi am fynd ymlaen i apêl cam 2 i CBAC?

NAC YDW

Dim gweithredu pellach



YDW

Gallwch chi lenwi ffurflen y bydd eich ysgol neu goleg yn ei rhoi i chi, ac esbonio beth yw'r gwall rydych chi'n credu gafodd ei wneud. Bydd eich ysgol neu goleg yn cyflwyno'r ffurflen hon, gyda'ch cofnod gwneud penderfyniadau ac, os yw'n berthnasol, eich dystiolaeth asesu i CBAC o fis Awst

Mae CBAC yn cynnal yr apêl cam 2 i benderfynu a yw gwall wedi'i wneud

A nodwyd gwall?

NADDO

Bydd CBAC yn rhoi gwybod i'ch ysgol neu goleg nad ydyn nhw wedi dod o hyd i wall a bod eich gradd yn aros yr un fath. Bydd CBAC yn rhoi manylion Cam 3 y Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholiadau iddyn nhw a byddan nhw'n rhannu hyn â chi

DO

Bydd CBAC yn rhoi gwybod i'ch ysgol neu goleg os oes angen cywiro gwall a allai arwain at eich gradd yn mynd i fyny, yn mynd i lawr, neu'n aros yr un peth. Bydd CBAC yn rhoi manylion Cam 3 y Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholiadau iddyn nhw a byddan nhw'n rhannu hyn â chi

Oes angen mwy o wybodaeth arnoch chi?

Mae mwy o wybodaeth i'w chael ar wefan Cymwysterau Cymru yn eu [canllawiau i ddysgwyr a rhieni yma](#)

Mae mwy o wybodaeth am Gam 2 ar gael ar [ein gwefan](#). Mae Cymwysterau Cymru hefyd wedi cynhyrchu [canllawiau ychwanegol ar gyfer Cam 3](#).